# Pecyn i Ymgeiswyr

## Cyfarwyddwr Anweithredol

## Activate Gorllewin Cymru

Cyfle i helpu i siapio dyfodol Chwaraeon, Gweithgarwch Corfforol a Hamdden Actif ledled Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot.

**Awst 2026**

**Ein Gweledigaeth ni yw Gorllewin Cymru lle mae bod yn actif yn rhan o fywyd bob dydd, i bawb.**

## Croeso

Diolch i chi am eich diddordeb mewn ymuno â Bwrdd Activate Gorllewin Cymru fel Cyfarwyddwr Anweithredol.

Mae Activate Gorllewin Cymru yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn gweithgarwch corfforol drwy ddod â sefydliadau, cymunedau ac arweinwyr at ei gilydd o amgylch uchelgais a rennir: helpu mwy o bobl i fyw bywydau actif ac iach.

Rydyn ni eisiau penodi hyd at **dri** Chyfarwyddwr Anweithredol newydd sy'n gallu cyfrannu gwybodaeth strategol, profiad a safbwyntiau ffres i gefnogi ein cam nesaf yn ein datblygiad. Mae hwn yn gyfle i helpu i siapio dyfodol Chwaraeon, Gweithgarwch Corfforol a Hamdden Actif ledled Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot.

Er ein bod yn croesawu ceisiadau gan bobl o amrywiaeth eang o gefndiroedd, rydyn ni'n arbennig o awyddus i glywed gan unigolion sydd ag arbenigedd yn y canlynol:

- **Polisi, materion cyhoeddus ac eiriolaeth**
- **Datblygu masnachol, partneriaethau ac arallgyfeirio incwm**
- **Cynllunio cyhoeddus, stiwardiaeth amgylcheddol, cydlyniant cymunedol a / neu les, ac iechyd ataliol.**

Rôl wirfoddol yw hon. Dydyn ni ddim yn chwilio am bobl i gymryd rhan mewn gweithrediadau o ddydd i ddydd. Yn hytrach, rydyn ni'n chwilio am unigolion sy'n gallu ychwanegu gwerth drwy gyngor strategol, her adeiladol, gwybodaeth a chysylltiadau sy'n ein helpu ni i gryfhau ein heffaith a'n dylanwad.

## Amdanom Ni

### Ein Gweledigaeth

**Gorllewin Cymru lle mae bod yn actif yn rhan o fywyd bob dydd, i bawb.**

Activate Gorllewin Cymru yw'r bartneriaeth ranbarthol ar gyfer chwaraeon, gweithgarwch corfforol a hamdden actif ledled Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Rydyn ni'n gweithio ar draws sectorau a chymunedau i ddeall y rhwystrau sy'n atal pobl rhag bod yn actif ac i greu'r amodau sy'n gwneud ffyrdd o fyw actif yn haws, yn fwy hygyrch ac yn fwy cynhwysol.

Fel sefydliad ifanc ac uchelgeisiol, rydyn ni'n meithrin perthnasoedd, dylanwad a momentwm ar draws Gorllewin Cymru. Bydd cryfhau ein Bwrdd yn ein helpu ni i feddwl yn strategol, herio'n adeiladol ac agor drysau ar gyfleoedd a phartneriaethau newydd.

## Am y Rôl

Fel Cyfarwyddwr Anweithredol, byddwch yn cyfrannu at lywodraethu, stiwardiaeth a chyfeiriad strategol Activate Gorllewin Cymru.

Ochr yn ochr â'ch cyfrifoldebau cyffredinol fel aelod o'r Bwrdd, rydyn ni'n chwilio am unigolion sy'n gallu cyfrannu arbenigedd, gwybodaeth a safbwyntiau allanol sy'n cefnogi datblygiad parhaus y sefydliad.

Yn y rôl hon, rydyn ni'n gobeithio y byddwch chi'n gallu gwneud y canlynol:

- Cefnogi ein cyfeiriad strategol hirdymor a llywodraethu da.
- Gweithredu fel ffrind beirniadol dibynadwy, gan gyfrannu barn annibynnol a her adeiladol.
- Rhannu arbenigedd, gwybodaeth a chysylltiadau perthnasol sy'n cryfhau ein gwaith.
- Hyrwyddo ein gweledigaeth a gweithredu fel llysgennad dros Activate Gorllewin Cymru.

Y gwerth mwyaf mae aelodau ein Bwrdd yn ei gyfrannu yw meddwl yn strategol, perthnasoedd, profiad a her wybodus.

## Am Bwy Rydyn Ni'n Chwilio

Rydyn ni'n croesawu ceisiadau gan bobl sydd ag amrywiaeth eang o brofiadau a chefndiroedd.

Mae gennym ni ddiddordeb arbennig mewn pobl sy'n gallu dangos y canlynol:

- Meddwl yn strategol, barn gadarn a'r gallu i weld y darlun ehangach.
- Sgiliau cyfathrebu, meithrin perthnasoedd a chydweithredu cadarn.
- Profiad o weithio ar draws systemau cymhleth, partneriaethau, datblygu cymunedol a newid sy'n seiliedig ar le.
- Parodrwydd i gefnogi a herio'n adeiladol.
- Ymrwymiad i leihau anghydraddoldebau a gwella canlyniadau i gymunedau.
- Brwdfrydedd dros ein gweledigaeth a'n pwrpas.

Mae profiad blaenorol ar Fwrdd yn cael ei groesawu ond nid yw'n hanfodol. Rydyn ni'n agored i geisiadau gan bobl sy'n cymryd eu cam cyntaf i rôl ar Fwrdd, yn ogystal â'r rhai sydd â phrofiad blaenorol o lywodraethu. Rydyn ni'n cydnabod bod modd dysgu arweinyddiaeth, dylanwad a gwybodaeth mewn sawl ffordd wahanol, a does dim rhaid i chi fodloni pob pwynt sydd wedi'u rhestru i wneud cyfraniad gwerthfawr.

## Y Sgiliau a'r Arbenigedd Rydyn ni'n Chwilio Amdanyn Nhw'n Benodol

Fel rhan o ddatblygiad ein Bwrdd, mae gennym ni ddiddordeb arbennig mewn pobl sy'n gallu cyfrannu profiad yn un o'r meysydd canlynol. Rydyn ni hefyd yn gweld gwerth mewn gwybodaeth o bob rhan o dirlun ein partneriaid, gan gynnwys sectorau a chymunedau sy'n dylanwadu ar iechyd, lles cymunedol a gweithgarwch corfforol.

**Polisi, Materion Cyhoeddus ac Eiriolaeth**

Byddem yn croesawu ceisiadau gan unigolion sydd â phrofiad yn y canlynol:

- Polisi cyhoeddus, materion cyhoeddus, eiriolaeth neu ddylanwadu.
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid ar draws y llywodraeth, y sector cyhoeddus neu amgylcheddau gwleidyddol.
- Meithrin perthnasoedd strategol gyda phobl sy'n gwneud penderfyniadau a phartneriaid.

Bydd yr arbenigedd hwn yn ein helpu ni i gryfhau ein llais, dylanwadu ar sgyrsiau a sicrhau bod gweithgarwch corfforol a lles yn parhau i fod yn ganolog mewn blaenoriaethau rhanbarthol a chenedlaethol.

**Datblygu Masnachol, Partneriaethau ac Arallgyfeirio Incwm**

Byddem hefyd yn croesawu ceisiadau gan unigolion sydd â phrofiad yn y canlynol:

- Strategaeth fasnachol, datblygu busnes neu dwf strategol.
- Partneriaethau corfforaethol, nawdd neu ymgysylltu â'r sector preifat.
- Arallgyfeirio incwm, cynaliadwyedd, menter gymdeithasol neu arloesedd.

Bydd yr arbenigedd hwn yn ein helpu ni i nodi cyfleoedd newydd ar gyfer buddsoddi, datblygu partneriaethau ystyrlon a chefnogi cynaliadwyedd hirdymor y sefydliad.

**Cynllunio Cyhoeddus, Stiwardiaeth Amgylcheddol, Lles Cymunedol ac Iechyd Ataliol**

Byddem hefyd yn croesawu ceisiadau gan unigolion sydd â phrofiad yn y canlynol:

- Cynllunio cyhoeddus, creu lleoedd neu greu amgylcheddau iach ac actif.
- Cynaliadwyedd amgylcheddol, stiwardiaeth neu ddatblygiad dan arweiniad y gymuned.
- Iechyd cyhoeddus, lles, atal neu leihau anghydraddoldebau iechyd.

Bydd yr arbenigedd hwn yn ein helpu ni i siapio cymunedau iachach, dylanwadu ar yr amgylcheddau lle mae pobl yn byw ac yn gweithio, a chefnogi dulliau ataliol sy'n galluogi mwy o bobl i fyw bywydau actif, iach a llawn boddhad.

Os yw eich profiad chi'n cyd-fynd â'r meysydd hyn, neu os gallwch chi gyfrannu gwybodaeth o sector, cymuned neu brofiad byw gwahanol, byddem yn falch iawn o glywed gennych chi.

## Y Bwrdd

Mae ein Bwrdd yn dod ag unigolion o amrywiaeth o gefndiroedd, profiadau a safbwyntiau at ei gilydd, wedi'u huno gan ymrwymiad cyffredin i greu Gorllewin Cymru iachach a mwy actif.

Mae aelodau'r Bwrdd yn chwarae rhan actif wrth gefnogi cyfeiriad strategol Activate Gorllewin Cymru, gan sicrhau llywodraethu, atebolrwydd a goruchwyliaeth effeithiol.

Rydyn ni'n credu bod perthnasoedd cadarn yn bwysig i lywodraethu effeithiol. Er bod hyblygrwydd lle mae angen, ein nod ni yw cyfarfod wyneb yn wyneb lle bynnag y bo modd i feithrin ymddiriedaeth, dealltwriaeth a chysylltiad ar draws y Bwrdd.

**Ymrwymiad Amser**

Rôl wirfoddol yw hon a bydd treuliau rhesymol yn cael eu had-dalu.

Bydd y penodiad am dymor cychwynnol o **dair blynedd.**

Mae cyfarfodydd y Bwrdd yn cael eu cynnal yn **chwarterol** fel rheol, ond gall cyfarfodydd ychwanegol gael eu trefnu o bryd i'w gilydd yn dibynnu ar flaenoriaethau sefydliadol ac anghenion busnes. Ar rai adegau yn ystod y flwyddyn, gall y cyfarfodydd gael eu cynnal bob deufis.

Mae **Cyfarfodydd y Bwrdd** yn cael eu cynllunio ymlaen llaw i ddarparu ar gyfer argaeledd aelodau'r Bwrdd, gan ystyried eu hymrwymiadau proffesiynol ac ymrwymiadau eraill, gan sicrhau llywodraethu effeithiol, ac fel rheol maent yn para am ryw **dair awr.**

Mae cyfarfodydd y Bwrdd yn cael eu cynnal **wyneb yn wyneb** yn gyffredinol yn **rhanbarth Gorllewin Cymru,** gyda'r mwyafrif yn digwydd yn ein swyddfa ni yn Abertawe.

Mae'r ymrwymiad disgwyliedig yn cynnwys y canlynol:

- Mynychu a pharatoi ar gyfer cyfarfodydd chwarterol y Bwrdd, gan gynnwys adolygu papurau.
- Diwrnod(au) Cwrdd i Ffwrdd blynyddol y Bwrdd, gyda llety dros nos a chyfarfodydd ar y ddau ddiwrnod. Yn cael ei gynnal ym mis Mehefin fel rheol, yn y rhanbarth.
- Cyfarfodydd ychwanegol achlysurol, digwyddiadau datblygu neu weithgaredd partneriaeth.
- Cyfranogiad mewn is-bwyllgorau, grwpiau gorchwyl a gorffen neu weithgorau lle mae hynny'n berthnasol.
- Sgyrsiau gyda'r Cadeirydd, y Prif Swyddog Gweithredol neu aelodau eraill y Bwrdd rhwng cyfarfodydd.
- Gwerthusiad Datblygu'r Bwrdd Blynyddol gyda Chadeirydd y Bwrdd. (1 i 2 awr)

Rydyn ni'n cydnabod bod gan aelodau'r Bwrdd ymrwymiadau proffesiynol a phersonol amrywiol ac yn anelu at sicrhau bod y rôl yn parhau i fod yn ystyrlon ac yn hwylus.

**Amrywiaeth a Chynhwysiant**

Rydyn ni'n gwybod bod penderfyniadau gwell yn cael eu gwneud pan fydd gwahanol leisiau, profiadau a safbwyntiau'n cael eu cynrychioli o amgylch y bwrdd.

Rydyn ni wedi ymrwymo i greu Bwrdd sy'n adlewyrchu amrywiaeth y cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu ac yn croesawu ceisiadau gan bobl o bob cefndir, hunaniaeth, oedran a phrofiad bywyd.

**Sut i Ymgeisio**

Cyflwynwch y canlynol: info@activate.wales

- CV cyfredol.
- Datganiad ategol (dwy dudalen ar y mwyaf) yn amlinellu'r canlynol:
    - Pam mae gennych chi ddiddordeb mewn ymuno â Bwrdd Activate Gorllewin Cymru.
    - Y profiad, y sgiliau a'r safbwynt fyddech chi'n eu cynnig.
    - Sut rydych chi'n credu y gallech chi gyfrannu at ein gweledigaeth a'n huchelgeisiau.

Bydd yr ymgeiswyr sydd wedi cyrraedd y rhestr fer yn cael eu gwahodd i sgwrs anffurfiol a chyfweliad gyda chynrychiolwyr o'r Bwrdd a'r tîm gweithredol.

Bydd addasiadau rhesymol yn cael eu cynnig drwy gydol y broses recriwtio.

**Dyddiad cau: Dydd Llun 14 Medi (12 hanner dydd)**

**Mae Activate Gorllewin Cymru yn cadw'r hawl i gau'r swyddi gwag hyn a rhoi'r gorau i dderbyn ceisiadau ar unrhyw adeg cyn y dyddiad cau a hysbysebwyd os bernir bod yr ymateb i'r hysbyseb yn ddigonol i fodloni gofynion y broses benodi.**

Am sgwrs anffurfiol am y rôl, cysylltwch â:

**Jamie Rewbridge**
Prif Swyddog Gweithredol

**07586 148062**

**Activate Gorllewin Cymru**
Am ragor o wybodaeth amdanom ni, edrychwch ar ein gwefan: www.activate.wales

**Diolch yn Fawr**

Diolch i chi am eich diddordeb yn Activate Gorllewin Cymru.

Rydyn ni'n credu bod cymunedau iachach a mwy actif yn cael eu creu drwy berthnasoedd cadarn, uchelgais a rennir a gweithredu ar y cyd. Os yw hynny'n apelio atoch chi, ac os ydych chi'n teimlo y gallech chi ein helpu ni i greu effaith fwy fyth ledled Gorllewin Cymru, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych chi.

**Gyda'n gilydd, fe allwn ni greu Gorllewin Cymru lle mae bod yn actif yn rhan o fywyd bob dydd, i bawb.**